



YSGOL BRO PLENYDD

Pennaeth / Headteacher - Mrs Carys Hughes B.A
Cadeirydd y Corff Llywodraethol / Chair of Governors – Mr Huw Arwel Owen
ebost / email – CarysHughes@gwynedd.gov.uk
Ffon / Tel - 01766 810 625

Pwllheli,
Gwynedd,
LL53 6UP

Ebrill 13eg, 2015

Annwyl Rieni,

Mae'n bleser gennyf eich hysbysu fod adroddiad arolygu Ysgol Bro Plenydd Chwefror 2015 bellach i'w gweld ar wefan Estyn. Os ydych yn dymuno copi caled a fyddech gystal a'm hysbysu o hynny a byddaf yn trefnu eich bod yn derbyn copi. Bydd yr adroddiad ar gael ar wefan yr ysgol maes o law yn ogystal.

Mae'r ysgol yn falch iawn o'r adroddiad sy'n datgan fod yr ysgol yn perfformio yn **dda** ar berfformiad presennol a rhagolygon gwella ac ar y tri cwestiwn allweddol o fewn yr adroddiad. Fodd bynnag dymunaf dynnu eich sylw at un elfen oddi fewn i'r adroddiad sydd wedi ein siomi fel ysgol sef y farn **digonol** o dan y pennawd Lles. Hoffwn esbonio ymhellach :

Pan oedd y tim arolygu yn adrodd yn ol ar ddiwedd yr arolygiad fe ddyfarnwyd **da** o dan pob pennawd ar draws y bwrdd, gan gynnwys Lles. Mae Lles yn cynnwys perfformiad presenoldeb yr ysgol ymysg pethau eraill. Yr arolygydd llyg, Ms Glenda Jones oedd yn arolygu yr adran yma ac roedd hi'n bositif iawn ei dyfarniad fel ag y mae'r adroddiad o dan Lles yn cyfleu. Fel y gwyddoch roedd cyfraddau presenoldeb yr ysgol y llynedd yn 95.3% oedd yn ateb y targed sirol a chenedlaethol o 95%. Yn ogystal roedd y tim arolygu yn gallu gweld fod cynnydd wedi bod yng nghyfraddau presenoldeb yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf ac fod yr ysgol yn gallu dangos digonedd o dystiolaeth ei bod yn gweithredu ar wella cyfraddau presenoldeb.

Wedi i'r adroddiad fynd yn ol i Estyn i'w gwirio bu i un o'r uwch gyfarwyddwyr ddatgan anfodlonrwydd gyda **da** ar gyfer Lles ar sail un peth yn unig sef safle yr ysgol yn ei theulu ysgolion o ran presenoldeb. Mae pob ysgol yng Nghymru yn cael ei gosod mewn band yn ol y cyfran o blant sydd a'r hawl i gael cinio am ddim. Mae Ysgol Bro Plenydd mewn band o ysgolion sydd a'r cyfraddau lleiaf o blant sydd a'r hawl i gael cinio am ddim. Byddai'n rhaid i gyfraddau presenoldeb yr ysgol fod wedi bod yn 95.9% [.6% o wahaniaeth] i'r **da** fod wedi cael ei dderbyn gan yr uwch gyfarwyddwr. Neu mewn geiriau eraill petai gan yr ysgol fwy o ddisgyblion a'r hawl i gael cinio am ddim byddai'r 95.3% wedi bod yn dderbyniol.

Adroddodd yr arolygydd cofnodol, Mr Kevin Davies a oedd yn arwain y tim ei fod ef a Mr

Huw Watkin, prif arolygwr wedi brwydro ar ein rhan i geisio argyhoeddi Estyn ond heb lwyddiant. **Mae hyn yn dangos felly pa mor bwysig ydyw data i Estyn erbyn hyn. Er fod yr ysgol yn gwneud popeth o fewn ei gallu i wella presenoldeb y cyfraddau i gymharu ag ysgolion eraill ar draws Cymru yn yr un grwp sy'n cyfrif.**

Mae gan Ysgol Bro Plenydd waith i'w wneud eto felly ar wella ei chyfraddau presenoldeb ac fel yr ydwyf eisioes wedi ei nodi mae eich cefnogaeth chwi fel rhieni yn gwbl hanfodol yn hyn o beth.

Yn Gywir,